# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 12 Ionawr 2015** |
| Amser: | **14.31 – 15.45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2591**

## Cofnodion Cryno:
MeetingTitle

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Melding AC (Cadeirydd)**<br>**Alun Davies AC**<br>**Suzy Davies AC**<br>**William Powell AC**<br>**Simon Thomas AC** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **P Gareth Williams (Clerc)**<br>**Ruth Hatton (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

**Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.**

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

2.1 CLA473 – Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2014

2.2 CLA474 – Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Ymgymerwyr sy'n Gyfan Gwbl neu'n Bennaf yng Nghymru) (Gwybodaeth am Feddianwyr nad ydynt yn Berchenogion) 2014

2.3 CLA475 – Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014

2.4 CLA476 – Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2014

2.5 CLA478 – Gorchymyn Cynllun Iawndal y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2014

2.6 CLA479 – Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014

2.7 CLA480 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2015

**Nododd y Pwyllgor yr offerynnau statudol ac roedd yn fodlon â hwy. O ran CLA479, cytunodd y cynghorydd cyfreithiol i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor.**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

3.1 CLA477 – Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2014

Nododd y Pwyllgor yr offeryn statudol a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad.
3.2 CLA485 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) (Rhif 2) 2014

Nododd y Pwyllgor yr offeryn statudol a bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Llywodraeth i edrych ar sut yr ymdrinnir ag offerynnau yn y dyfodol.

## 4 Adroddiad Monitro Sybsidiaredd – mis Mai i fis Rhagfyr 2014

Nododd y pwyllgor yr adroddiad ac roedd yn fodlon ag ef.

## 5 Papurau i'w nodi

**Nododd y Pwyllgor y papurau. Mewn perthynas â'r llythyr gan y Gweinidog ar y Bil Cynllunio (Cymru), croesawodd yr Aelodau y wybodaeth fanwl yn amlinellu'r berthynas rhwng Bil Cynllunio (Cymru), Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Bil yr Amgylchedd (Cymru).**

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn breifat.

6.1 Blaenraglen waith

6.2 Adroddiad Drafft ar y Bil Cynllunio (Cymru)